## Answers to some common questions about children's flu vaccination

**Why do children need to be protected from flu?** Flu is common in children. It can cause fever, aching muscles, headache, tiredness, blocked nose, cough and a sore throat, lasting up to a week. Often children who get flu feel very unwell and for some it can cause serious illness. Complications can include bronchitis, pneumonia and ear infections. Some children are so ill they are admitted to hospital.

**How will the flu vaccine be given?** Most children can have a nasal spray vaccine, this is given as a spray up the nose. This nasal spray vaccine gives better protection to children than the flu injection. Flu vaccines can be given at the same time as other vaccines.

**How does flu vaccine help?** Flu vaccine helps protect children from flu and also helps stop the virus spreading to family and friends. Protection starts around two weeks after having it. Some people get flu even after having the vaccine but this is often with milder symptoms. Flu vaccines do not protect against colds or other winter illnesses. A flu vaccine is needed every year to give best protection as immunity falls and flu viruses can change each year.

**Are there any children who shouldn't have the nasal spray?** Most children can have the nasal spray flu vaccine. It is not recommended for the small number of children who:

- have had a serious allergic reaction to the vaccine or any part of it
- are on long-term aspirin (salicylate) treatment
- have needed intensive care following a severe allergic reaction to eggs or egg products
- have severe asthma that is being treated with high dose inhaled steroids **or** have had oral steroids in the past 14 days
- have a wheezy chest on the day of the vaccination or in the previous 3 days
- have increased the use of their asthma inhaler in the last 3 days
- have a condition that weakens their immune system
- are in close contact with someone who has a very weakened immune system and needs to be isolated (e.g. after a bone marrow transplant)

The small number of children who can't have the nasal spray vaccine will be offered a flu vaccine injection.

**If my child has a cough, cold or other minor illness should I delay their flu vaccination?** No, flu vaccination should not be delayed for minor illnesses. The nasal spray vaccine will still work even if they sneeze straight after having it.

**Are there any side effects from a flu vaccine?** Flu vaccines are very safe. The nasal spray may cause a runny or blocked nose. Some children get a slight temperature, feel tired, have a headache, a reduced appetite or aching muscles for a day or two after having a flu vaccine. The flu injection can cause a sore arm.

**Does the nasal spray vaccine contain gelatine?** Yes, the nasal spray flu vaccine contains traces of highly purified gelatine (porcine gelatine) which is also used in a range of essential medicines. For a full list of the vaccine ingredients visit the following website: www.medicines.org.uk/emc/ and enter *Fluenz Tetra* into the search box. The flu injection is available as an alternative for children in clinical risk groups only.

**Will the flu vaccine cause flu?** No, the flu vaccine will not cause flu.

**How often is the flu vaccine needed?** A flu vaccine is needed every year to give best protection. Flu viruses can change each year so the vaccine is changed to match them.

**Is the nasal spray a new vaccine?** No. Millions of doses of the nasal spray vaccine have been given in countries around the world over the last 10 years.

**Where can I get more information? Visit** www.beatflu.org

© 2017 Public Health Wales/ Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Atebion i rai cwestiynau cyffredin am frechlyn y ffliw

**Pam mae angen amddiffyn plant rhag y ffliw?** Mae'r ffliw yn gyffredin ymysg plant. Gall achosi gwres uchel, cyhyrau dolurus, cur pen, trwyn tynn, peswch a gwddf dolurus, sy'n parhau am ryw wythnos. Yn aml bydd plant sy'n cael y ffliw yn teimlo'n sâl iawn ac i rai gall achosi salwch difrifol. Gall y cymhlethdodau gynnwys bronchitis, niwmonia a heintiau'r glust. Mae rhai plant mor sâl eu bod yn cael eu derbyn i'r ysbyty.

**Sut caiff brechlyn y ffliw ei roi?** Gall y rhan fwyaf o blant gael brechlyn chwistrell drwynol. Rhoddir hwn fel chwistrell i fyny'r trwyn. Mae'r brechlyn chwistrell drwynol hwn yn rhoi amddiffyniad gwell rhag pigiad y ffliw. Gellir rhoi brechlynnau'r ffliw yr un pryd â brechlynnau eraill.

**Sut mae brechlyn y ffliw yn helpu?** Mae brechlyn y ffliw yn helpu i amddiffyn plant rhag y ffliw ac mae hefyd yn atal y feirws rhag cael ei ledaenu i deulu a ffrindiau. Mae'r diogelwch yn dechrau tua phythefnos ar ôl ei gael. Mae rhai pobl yn cael y ffliw hyd yn oed ar ôl cael y brechlyn ond mae hwn yn aml gyda symptomau ysgafnach. Nid yw brechlynau'r ffliw yn amddiffyn rhag annwyd na salwch arall y gaeaf. Mae angen brechlyn y ffliw bob blwyddyn er mwyn rhoi'r amddiffyniad gorau am fod imiwnedd yn lleihau a gall feirysau'r ffliw newid bob blwyddyn.

**A oes unrhyw blant na ddylai gael y chwistrell drwynol?** Gall y rhan fwyaf o blant gael brechlyn chwistrell drwynol y ffliw. Nid yw'n cael ei argymell ar gyfer y nifer fach o blant sydd:

- wedi cael adwaith alergaidd difrifol i'r brechlyn neu unrhyw ran ohono
- yn cymryd triniaeth asprin hirdymor (salicylate)
- wedi bod angen gofal dwys yn dilyn adwaith alergaidd difrifol i wyau neu gynnyrch wyau
- wedi cael asthma difrifol sy'n cael ei drin gyda dos uchel o steroidau sy'n cael eu hanadlu **neu** wedi cael steroidau trwy'r geg yn y 14 diwrnod blaenorol
- wedi cael gwichian ar y frest ar ddiwrnod y brechiad neu yn y 3 diwrnod diwethaf
- wedi cynyddu'r defnydd o'u anadlydd asthma yn y 3 diwrnod diwethaf
- â chyflwr sy'n gwanhau eu system imiwnedd
- mewn cyswllt agos â rhywun â system imiwnedd wan iawn ac angen cael ei ynysu (e.e. ar ôl trawsblaniad mêr esgyrn)

Bydd y nifer fach o blant sy'n methu cael y brechlyn chwistrell drwynol yn cael cynnig brechlyn y ffliw trwy bigiad.

**Os oes gan fy mhlentyn beswch, annwyd neu salwch ysgafn arall a ddylid oedi cyn eu brechu rhag y ffliw?** Na, ni ddylid oedi cyn brechu rhag y ffliw oherwydd salwch ysgafn. Bydd y brechlyn chwistrell drwynol yn dal i weithio hyd yn oed os ydynt yn tisian yn syth ar ôl ei gael.

**A oes unrhyw sgil-effeithiau i frechlyn y ffliw?** Mae brechlynau'r ffliw yn ddiogel iawn. Gall y chwistrell drwynol wneud i'r trwyn redeg neu fynd yn dynn. Mae rhai plant yn cael ychydig o dymheredd, yn teimlo'n flinedig, yn cael cur pen, yn colli eu harchwaeth am fwyd neu'n dioddef o gyhyrau dolurus am ddiwrnod neu ddau ar ôl cael brechlyn y ffliw. Gall pigiad y ffliw wneud y fraich yn ddolurus.

**A fydd brechlyn y ffliw yn achosi'r ffliw?** Na, ni fydd brechlyn y ffliw yn achosi'r ffliw.

**Ydi'r brechlyn chwistrell drwynol yn cynnwys gelatin?** Ydi, mae'r brechlyn chwistrell drwynol ar gyfer y ffliw yn cynnwys olion o gelatin wedi'i buro (gelatin o deulu'r moch) sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o feddyginiaethau hanfodol. Am restr lawn o gynhwysion y brechlyn, ewch i'r wefan ganlynol: www.medicines.org.uk/emc/ a nodwch *Fluenz Tetra* yn y blwch chwilio. Mae brechiad y ffliw ar gael fel dewis arall i blant mewn grwpiau risg glinigol yn unig.

**Pa mor aml y mae angen brechlyn y ffliw?** Mae angen brechlyn y ffliw bob blwyddyn er mwyn rhoi'r amddiffyniad gorau. Gall feirysau'r ffliw newid bob blwyddyn felly mae'r brechlyn yn cael ei newid i gyd-fynd â nhw.

**A yw'r chwistrell drwynol yn frechlyn newydd?** Nac ydy. Mae miliynau o ddosys o'r brechlyn chwistrell drwynol wedi cael eu rhoi mewn gwledydd ar draws y byd dros y 10 mlynedd diwethaf.

**Ble gallaf gael mwy o wybodaeth? Ewch i** www.curwchffliw.org

© 2017 Public Health Wales/ Iechyd Cyhoeddus Cymru